OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

# Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 3

## SWYDDOGAETHAU ATODOL

*Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol*

### Dehongli rheoliadau 26 i 30

**26.** Yn y rheoliad hwn a rheoliadau 27 i 30—

ystyr "athro neu athrawes addysg bellach" ("*further education teacher*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes addysg bellach fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr "athro neu athrawes ysgol" ("*school teacher*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori athro neu athrawes ysgol fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 ac nid yw'n cynnwys person sydd wedi ei gofrestru ar sail dros dro o dan adran 9(5) o'r Ddeddf honno;

ystyr "cydlynydd anghenion addysgol arbennig" ("*special educational needs co-ordinator*") yw person sydd â chyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodir bod ganddynt anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(**2**);

ystyr "gwasanaethau perthnasol" ("*relevant services*") yw—

(a) cyngor neu gymorth mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol,

(b) rheoli darpariaeth ddysgu ychwanegol,

(c) asesu anghenion dysgu ychwanegol,

(d) cyngor neu gymorth mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol, ac

(e) rheoli disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol;

(f) ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" ("*further education learning support worker*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014;

ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol" ("*school learning support worker*") yw person sydd wedi ei gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yng nghategori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol fel y'i disgrifir yn nhabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) 2014 dccc 5.